

BASW
Cymru

Y gymdeithas i waith cymdeithaso
a gweithwyr cymdeithasol

Gwasanaeth
Cymorth Proffesiynol



Gwasanaeth Cymorth Proffesiynol i Waith Cymdeithasol

Adroddiad perfformiad i Lywodraeth Cymru

Dyddiad yr Adroddiad: 21 Mawrth 2022



Lansiwyd y Gwasanaeth Cymorth Proffesiynol yng Nghymru ar 17eg Tachwedd 2021. Mae'n cynnig gwasanaeth gwranddo rhwng cymheiriaid, lle gall hyfforddwr gwirfoddol hyfforddedig gefnogi eu cydweithwyr yn gyfrinachol. Mae'r gwasanaeth yma i helpu gweithwyr cymdeithasol i holi eu hunain ac i fyfyrion ar bryderon mewn man diogel.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd rhwng y dyddiad lansio a diwedd Chwefror 2022, ac mae'n cynnwys crynodeb o weithgareddau a dadansoddiad o themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod gweithredu byr hwn.

Ar hyn o bryd mae gennym naw hyfforddwr wedi'u lleoli yng Nghymru ac mae un yn gallu cyflwyno sesiynau yn y Gymraeg. Mae yna awydd cryf i fod yn hyfforddwr ac ar hyn o bryd mae rhestr aros o chwech. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle prin a gwerthfawr hwn ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol.


Dyma giplun o'r mathau o faterion sy'n cael eu codi gyda'n hyfforddwr gwirfoddol Cymreig yn ystod eu sesiynau gyda 'hyfforddeion'. Daw'r wybodaeth o ffurflenni cadw cofnodion y mae'n ofynnol i hyfforddwr eu llenwi ar ddiwedd pob cyswllt.

- Effaith emosiynol a chorfforol gwaith cyfredol.
- Mwy o gyfrifoldebau yn cyd-fynd â materion personol a'r gweithle.
- Pwysau ychwanegol oherwydd cofid
- Pontio anodd i swyddi uwch newydd.
- Myfyrio i reoli materion sy'n ymwneud â diwylliant tîm.
- Ymdopi â phrofedigaeth deuluol a'ch afiechyd eich hun.
- Cael eich tywys trwy weithdrefnau disgyblu yn y gwaith.
- Colli hyder.
- Ymdopi ag unigedd.
- Myfyrio ar gyfer gwell llesiant.
- Myfyrio i egluro blaenoriaethau / nodau.
- Myfyrio i helpu gyda chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith

Beth yw 'hyfforddeion' yn dweud am y gwasanaeth?

Adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth Cymorth Proffesiynol a gymerodd ran yn yr arolwg rhwng 27ain Ionawr a 3ydd Chwefror 2022

Beth sy'n bwysig i chi am y Gwasanaeth Cymorth Proffesiynol??



■ Annibynnol o wasanaeth fy nghyflogwr **93%**

■ Hyfforddwyr yn weithwyr cymdeithasol **93%**

■ Sgiliau'r hyfforddwyr **87%**

■ Mae'n cynnig hyfforddwyr o fy maes ymarfer i **60%**

■ Mae'n cynnig hyfforddwyr o fy lefel i o ymarfer (rheolwr, PSW, rheolwr tîm, rheolwr y rheng flaen) **67%**

■ Mae'n wasanaeth sy'n rhad ac am ddim **73%**

Canlyniadau dienw a gyflawnwyd o'r sesiynau

Cynhaliodd 'Strengthening Practice' rai sesiynau grŵp ffocws ar gyfer pobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn ac ni chafwyd unrhyw faterion yn ymwneud â mynediad nac ansawdd y gwasanaeth.

'Roedd rhan o fy mhroblem yn ymwneud â rheolwr, felly roedd yn dda cael mewnbwn gan rywun â phrofiad rheoli.'

'Le diogel gwych i weithio, gyda hyfforddwr profiadol fel seinfwrdd ar gyfer eich materion pennaf - Yn gwneud i chi deimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi a bod rhywun yn gwrando arnoch, sy'n eich helpu i ystyried atebion i allu symud ymlaen gyda phethau.'

'Cael gafael ar gyngor proffesiynol annibynnol sy'n canolbwyntio ar waith cymdeithasol ac sy'n magu hyder.'

'Yn eich helpu i ganolbwyntio yn hytrach na meddwl dros bethau yn eich pen heb unrhyw benderfyniad. Mae'n rhoi hyder i chi yn eich gallu i wneud newidiadau effeithiol.'

'Roedd cael profiad hyfforddi yn ddilys ac yn gefnogol i mi. Gan fy mod yn hunangyflogedig, nid oes gennyf fynediad at oruchwyliaeth broffesiynol. Roedd y sesiwn wedi fy helpu i fyfyrto a chynllunio ar gyfer fy nyfodol. Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus.'

'n ddefnyddiol iawn ac wedi gadael efo syniadau newydd.'

Datblygwyd podlediad newydd a gyhoeddir pob dau fis sy'n ychwanegu gwerth at y gwasanaeth. Mae'r bennod gyntaf [yma](#).

Lleoliad daearyddol y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Cofrestriadau Cymraeg - Lleoliad Cod Post (Tach. 21 - Chwefror 22)

Caerdydd: **14**

Aberdâr: **1**

Morgannwg: **6**

Y Barri: **4**

Cymoedd Gwent: **2**

Blaenau Gwent: **3**

Cwmbrân: **1**

Abertawe: **6**

Sir Gaerfyrddin: **3**

Llanelli: **3**

Ceredigion: **1**

Llandysul: **1**

Hwlfordd: **1**

Cymoedd Canolog,

Gorllewin Cymru: **2**

Powys: **5**

Clunderwen: **1**

Sir Ddinbych: **5**

Sir y Fflint a Wrecsam: **2**

Gwynedd: **4**

Long Sutton, Dwyrain

Canolbarth Lloegr: **1**

Penbedw: **1**

Caer: **2**

Sir Gaer: **2**

Crewe: **1**

*Mae'n ddiddorol nodi'r unigolion cofrestredig sy'n byw yn Lloegr ond sy'n ymarfer / astudio yng Nghymru.

Ystadegau am ddefnyddwyr gwasanaethau cymorth proffesiynol rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022

Cofrestriadau	Tach 21	Rhag 21	Ion 22	Chwef 22	Cyfanswm	Cyfanswm %
Benyw	8	24	14	13	59	81.94%
Gwryw	2	4	1	1	8	11.11%
Heb ddweud/ Gwell peidio dweud	0	3	2	0	5	6.94%
Cyfanswm	10	31	17	14	72	100.0%
Sesiynau						
Sesiynau a Archebwyd	2	6	10	11	29	100.0%
Sesiynau a Gyflwynwyd	1	6	9	10	26	89.66%
Sesiynau a Ganslwyd	1	0	1	1	3	10.34%
Sesiynau Dim Sioe	0	0	0	0	0	0.00%
Ethnigrwydd						
Affricanaidd	1	1	0	0	2	2.78%
Caribiaidd	0	0	0	1	1	1.39%
Saesneg	2	5	3	2	12	16.67%
Indiaid	0	1	0	0	1	1.39%
Albanaidd	0	1	0	0	1	1.39%
Cymraeg	6	15	8	10	39	54.17%
Arall	1	2	3	1	7	9.72%
Heb ddweud / Gwell peidio dweud	0	6	3	0	9	12.50%
Cyfanswm	10	31	17	14	72	100.0%
Age						
18-29	2	3	1	6	12	16.67%
30-39	0	7	3	5	15	20.83%
40-49	5	10	8	3	26	36.11%
50-59	3	6	3	0	12	16.67%
60+	0	3	0	0	3	4.17%
Heb ddweud/ Gwell peidio dweud	0	2	2	0	4	5.56%
Cyfanswm	10	31	17	14	72	100.0%
Cyflogwr						
Awdurdod Lleol	8	27	9	3	47	65.28%
Y Sector Annibynnol	1	0	1	0	2	2.78%
Hunan cyflogedig	0	1	0	0	1	1.39%
Myfyriwr	0	0	6	11	17	23.61%
Y Trydydd Sector	0	0	0	0	0	0.00%
Arall	0	3	0	0	3	4.17%
Heb ddweud	1	0	1	0	2	2.78%
Cyfanswm	10	31	17	14	72	100.0%

Hyd Amser ers Cymhwyso						
Myfyriwr	0	0	6	11	17	23.61%
Llai na flwyddyn	1	5	4	1	11	15.28%
1-5 blwyddyn	3	6	4	1	14	19.44%
6+ blwyddyn	6	20	3	1	30	41.67%
Heb ddweud	0	0	0	0	0	0.00%
Cyfanswm	10	31	17	14	72	100.0%
Rolau Swyddi a Gefnogir						
Myfyriwr	0	0	6	11	17	23.61%
Gweithiwr Cymdeithasol y Rheng Flaen	8	25	8	3	44	61.11%
Rheolwr y Rheng Flaen	2	3	1	0	6	8.33%
Rheolwr Canolig neu Uwch	0	1	1	0	2	2.78%
Heb ddweud	0	2	1	0	3	4.17%
Cyfanswm	10	31	17	14	72	100.0%
Maes Ymarfer						
Oedolion	3	11	4	3	21	29.17%
Plant a Theuluoedd	5	17	4	0	26	36.11%
Cyfiawnder	0	0	1	0	1	1.39%
Iechyd Meddwl	1	3	0	0	4	5.56%
Arall	1	0	1	0	2	2.78%
Heb ddweud	0	0	1	0	1	1.39%
Myfyriwr	0	0	6	11	17	23.61%
Cyfanswm	10	31	17	14	72	100.0%
Datganwyd Anabledd	0	0	0	1		

Beth mae'r data yn dweud wrthym?

- Mae'r nifer o ddynion a menywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gyson â demograffeg gwaith cymdeithasol Cymru gyda chymhareb o 4:1 menywod i ddynion.
- Mae'r defnydd mwyaf o'r gwasanaeth yn y grŵp oedran 40 – 49 ac mae hyn hefyd yn adlewyrchu cyfartaledd oedran gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru, sef 46.
- Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gweithio mewn awdurdod lleol.
- Ar ôl gweithwyr cymdeithasol y rheng flaen, myfyrrwyr sy'n gwneud y defnydd mwyaf o'r gwasanaeth.

Risgiau a Heriau

Mae ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth yn cynyddu ond mae angen i ni gynnal hyn. Rydym yn parhau i ystyried ein brandio, pecyn cyfathrebu i'r cyfryngau a datblygiad asedau digidol. Ar ôl ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid byddwn yn canolbwyntio ar rai meysydd ymarfer penodol os bydd ein cyllid yn parhau. Mae gan Hwb Llesiant Gofal Cymdeithasol Cymru adnoddau rhagorol arno, ond rydym yn parhau i sgwrsio gyda hwy am wneud y gwasanaeth cymorth proffesiynol gwaith cymdeithasol yn fwy gweladwy ar y plattform.

● Archebu sesiynau ychwanegol

Rydym wedi dechrau argymhell i hyfforddwy'r archebu sesiynau nesaf ar ddiwedd y sesiwn gyntaf gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan fod hyn yn gwella'r nifer o sesiynau ychwanegol a archebir.

● 2022-23

Y gwasanaeth hwn yw'r unig wasanaeth cymorth yng Nghymru yn benodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Ei werth yw darparu'r gwasanaeth hwnnw drwy'r gweithwyr cymdeithasol eu hunain. Ers i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Tachwedd 2021 mae'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth yn cynyddu'n gynyddrannol.

Byddai BASW Cymru yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i ariannu'r gwasanaeth am flwyddyn ychwanegol, yn enwedig wrth i ni symud i adferiad ôl-cofid ar adeg o aflonyddwch byd-eang cynyddol ac argyfwng costau byw. Bydd y ddau hyn yn debygol o ddod â mwy fyth o heriau i'r proffesiwn.

Mewn trafodaeth gychwynnol gyda Phennaeth Busnes BASW, amcangyfrif rhesymol o'r adnoddau y byddai eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf yw £95,000 ynghyd â ThAW. Bydd Kate O'Regan yn cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru erbyn dechrau mis Ebrill, i amlinellu hyn.

Strategaeth cyfathrebu

Rydym yn parhau i gysylltu â rhanddeiliaid ac yn hybu'r gwasanaeth yn rheolaidd, gan rannu pecynnau cyfryngau diwygiedig i'w hyrwyddo ymhlith eu rhwydweithiau priodol fel y bo'n briodol.

Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn hyrwyddo'r gwasanaeth drwy eu cyfathrebiadau e-fwletin yn rheolaidd. Credwn fod hyn yn gefnogaeth arwyddocaol a nifer mwy o gofrestrïadau ar gyfer y gwasanaeth.

Ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gwelwyd mwy o ymgysylltu â chynnwys oedd yn manylu ar recriwtio hyfforddwy'r Cymreig, ochr yn ochr â graffeg a oedd yn rhannu dyfyniadau gan bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn awgrymu y dylai strategaethau cyfathrebu yn y dyfodol fodol dull tebyg gan ei bod yn ymddangos bod gweithwyr cymdeithasol yn ymgysylltu mwy â dyfyniadau gan gymheiriaid.

Nid ydym eto wedi archwilio datblygiad llysgenhadon y gwasanaethau i godi proffil y gwasanaeth ond yn bwriadu gwneud hyn, yn enwedig mewn awdurdodau lleol ac o fewn rhaglenni cymhwysu gwaith cymdeithasol, os cawn gyllid ymlaen.

Ein nodau ar gyfer 2022/23

- 1** Hyrwyddo a chynyddu mynediad i'r gwasanaeth i bob gweithiwr cymdeithasol.
 - 2** Datblygu ein negeseuon i annog mwy o bobl i fod yn barod i dderbyn cymorth hyfforddi fel rhan o fywyd gwaith iach.
 - 3** Canolbwyntio'r gwasanaeth ar anghenion penodol gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant i gefnogi cadw a recriwtio.
 - 4** Archwilio'r posibilïadau o fframio'r gwasanaeth fel un sy'n cefnogi datblygiad arweinyddiaeth
 - 5** Cyflwyno achos busnes cyllid i'r gwasanaeth ar gyfer 2022-23 i Lywodraeth Cymru.
-

Allison Hulmes
Cyfarwyddwraig Genedlaethol Cymru
BASW Cymru